Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanllwni
# Ysgol Gynradd Llanllwni
# Llanllwni
# Sir Gaerfyrddin
# SA39 9DX

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanllwni

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Llanllwni |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Glenys Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | |
| Person â gofal | Nerys Thomas |
| Nifer y lleoedd | 9 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 4 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8.45 a 12.00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae’r gwasanaeth hwn yn darparu “cynnig gweithredol” y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17/03/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 09/12/2009 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/10/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Daw bron pob un o’r plant o gartrefi lle siaradir rhywfaint o Gymraeg ar yr aelwyd | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Dd/b |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu gweithdrefnau asesu'r plant er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

A2 Sicrhau bod y blaenoriaethau ar gyfer gwella yn datblygu'r lleoliad dros gyfnod rhesymol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau bwriadus ynglŷn â'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn hapus ac yn hyderus wrth ddewis adnoddau yn ystod sesiynau chwarae rhydd. Maent yn mynegi ac yn cyfathrebu eu diddordebau a hoffterau yn hyderus. Mae mwyafrif y plant yn canolbwyntio'n dda am amser estynedig trwy eistedd, tra bod ychydig iawn yn dewis sefyll a gwrando ar y storïau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis eu gweithgareddau yn annibynnol wrth gyrraedd yn y bore, er enghraifft wrth ddewis mynd i'r ardal llyfrau i edrych ar lyfrau neu'n creu marciau cynnar gyda sialc wrth yr isl. O ganlyniad, mae gan bron pob plentyn lais cadarn yn y lleoliad.

Mae bron pob un plentyn yn ymdopi'n dda iawn wrth adael rhieni a gofalwyr ar ddechrau'r sesiwn. Maent yn eiddgar i weld yr ymarferwyr ac yn rhedeg atynt a gwenu. Mae perthynas hyfryd rhwng y plant a'r ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn dangos teimladau o lwyddiant, er enghraifft wrth ddefnyddio medrau modur mân ac yn ymateb yn hapus i glod gan ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn magu hyder yn eu gweithgareddau ac yn magu ymdeimlad o berthyn wrth iddynt weld eu gwaith creadigol yn cael ei arddangos. Er enghraifft, mae plant yn gwenu wrth ddangos eu gwaith modelu clai i'w ffrindiau.

Mae bron pob plentyn yn ymdrechu i gydweithio ag eraill yn dda ac yn deall bod angen aros eu tro ar adegau. Er enghraifft, mae plant yn aros i dderbyn cymorth gan ymarferwyr i dorri gyda siswrn. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n ofalus i dacluso adnoddau celf a chrefft. Maent yn parchu eraill trwy ymddiheuro am ddamweiniau sydd yn effeithio ar eraill ac yn dweud 'diolch' am fwyd sydd yn cael ei rannu iddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd yn gywir ac anghywir trwy gydymffurfio â rheolau i ddod i lawr o offer sydd yn gallu effeithio ar eu diogelwch.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i greu gwaith creadigol ac yn eiddgar i blesio ymarferwyr trwy wneud eu gorau wrth ludo darnau o ddefnydd i greu mwgwd draenog. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio medrau datrys problemau wrth chwarae yn rhydd gan ddyfalbarhau i weld y ffordd fwyaf addas i chwarae gyda thegan trydanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn llawn cyffro a chwilfrydedd wrth chwarae yn yr ardal allannol ar feiciau a sgwteri.

Mae mwyafrif o'r plant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae helpwr y dydd yn didoli bwydydd a phlatiau i'w cyfoedion, tra bod bron pob un yn arllwys llaeth i mewn i'w cwpanau. Mae'r plant hŷn yn helpu'r plant bach i roi bwyd allan ar brydiau er mwyn modelu iddynt beth i'w wneud. Mae ychydig o'r plant yn mynd i'r tŷ bach heb gymorth ymarferwyr ac yn golchi eu dwylo yn annibynnol. Mae'r mwyafrif o blant yn gwisgo cotiau'n gywir heb gymorth oedolyn.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith ac maent yn gweithredu polisïau yn berthnasol a bwriadus. Er enghraift, mae'r ymarferwyr yn diheintio ardaloedd bwyta yn rheolaidd ac yn cadw cofnod glanhau manwl. Maent yn sicrhau rheolaeth dda a gofal arbennig wrth asesu risg, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grisiau serth i gael mynediad i'r ardal newid cewynnau. Mae'r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu plant ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai unrhyw bryderon am blant. Mae bron pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig ac yn cofnodi damweiniau'n briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau atal lledu haint, er enghraifft trwy annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach a chadw'n heini yn llwyddiannus, er enghraifft wrth roi cyfleoedd gwerthfawr i blant goginio cawl llysiau a thrwy ymarfer corff dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o alergeddau ac anoddefgarwch tuag at fwydydd penodol ac maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos a chynnes gyda'r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Er enghraifft, rhoddir anogaeth a chlod cyson i blant am geisio gwisgo eu hunain. Anogir y plant i fod yn gwrtais trwy ddweud 'diolch' amser bwyd. Maent yn deall sut i atal unrhyw deimlad o rwystredigaeth a gwrthdaro, er enghraifft trwy ddod i lawr i lefel y plentyn, a thrafod a thynnu sylw'r plant tuag at rywbeth arall sydd o ddiddordeb iddynt.

Darperir cyfleoedd cyfoethog i blant ddysgu am fyd natur trwy ddarparu adnoddau go iawn iddynt ddidoli a threfnu gwrthrychau yn seiliedig ar thema'r hydref. Er enghraifft, mae plant yn didoli brigau hir a byr a'u gosod mewn trefn maint. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau annibynnol y plant. Mae'r ymarferwyr yn deall ac yn adnabod y plant yn dda gan barchu eu hanghenion. Er enghraifft, mae plant sydd angen amser ychwanegol i orffen gweithgareddau TGCh a chreu modelau clai meddal yn cael eu parchu. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr ymarferwyr berthynas waith gadarnhaol gyda'r plant. Mae'r ymarferwyr yn ystyried llais y plant yn ofalus wrth gynllunio gweithgareddau diddorol sy'n datblygu medrau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o'r plant yn defnyddio bys a bawd yn effeithiol i godi adnoddau bach o fowlen ar y bwrdd a'u

edafu'n ofalus ar ddarnau o basta tenau wedi'u gwthio i mewn i ddarn o glai. Maent yn ystyried syniadau'r plant yn effeithiol drwy lunio mapiau meddwl ar y cyd ar gerdyn mawr a chael y plant i gofnodi eu syniadau gyda marciau ysgrifennu cynnar cyn eu harddangos ar y wal. Cynllunir gweithgareddau ysgogol sy'n sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau y mae'r plant yn dewis eu hunain. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant atgyfnerthu eu medrau trwy gynnwys adnoddau o'r gweithgaredd ffocws i gyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus. Maent yn cynllunio gweithgareddau'n fedrus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant, er enghraifft drwy roi cyfleoedd i'r plant gyfri draenogod meddal wedi'u cuddio mewn bocs o ddail hydrefol.

Mae'r ymarferwyr yn modelu patrymau iaith yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cyflwyno ansoddeiriau newydd i'r plant wrth greu modeli o ddraenogod. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd cyfoethog o dafodiaith yr ardal wrth siarad â'r plant. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn agored, yn gwrando ar eu hatebion ac yn ymestyn y drafodaeth yn fedrus. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob tro'n manteisio ar y cyfle i annog plant i ailadrodd geirfa a chystrawenau yn Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i godi ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru. Er enghraifft, maent yn cynnal parti penblwydd i Sali Mali ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ymuno â chaneuon carioci Cymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd da o ymwelydd gyda chywion bach i'r lleoliad i ddatblygu ymdeimlad o ryfeddod am y byd.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r berthynas hyfryd rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn rheoli rhyngweithio rhwng y plant yn ofalgar a chyson. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ymddygiad y plant ac yn creu naws cartrefol a theg yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau defnyddiol i asesu ac olrhain cynnydd y plant o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, mae'r rhain yn eu dyddiau cynnar ac nid yw'r ymarferwyr yn gwneud digon o ddefnydd o'r gweithdrefnau hyn i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi adborth lafar yn rheolaidd i'r rhieni ac yn cynnig awgrymiadau defnyddiol iddynt ar sut i helpu eu plant.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Mae mynediad i'r adeilad trwy ddrws diogel a gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi yn brydlon. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd mewnol ac allanol ac yn paratoi asesiadau risg trylwyr ar eu cyfer.

Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Maent yn sicrhau eu bod yn gwirio a glanhau adnoddau'n rheolaidd er mwyn darparu amgylchedd diogel a glân. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau toiled pwrpasol o fewn yr adeilad sy'n sicrhau cyfleoedd i barchu preifatrwydd plant ac ymolchi.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae sydd yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ac yn ardal sydd yn datblygu chwarae a'r dysgu yn bwrpasol. Maent yn darparu ardaloedd chwarae ysgogol y tu fewn i'r adeilad. Er enghraifft, mae'r ardaloedd wedi eu seilio ar thema'r tymor ac mae pob ardal yn cyfoethogi dysgu blaenorol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd y plant. Mae hyn yn datblygu annibyniaeth y plant yn dda. Mae cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau modur mân trwy'r defnydd o sisyrnau, adnoddau naturiol, byrddau ac adnoddau marcio. Mae'r ymarferwyr yn darparu arddangosfeydd lliwgar sydd yn cyfoethogi iaith a mathemateg y plant yn effeithiol yn ogystal â dathliad o waith lliwgar y plant. Mae adnoddau addas ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gael sydd yn cynnwys llyfrau, doliau a gweithgareddau bwrdd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd, sydd yn gymharol newydd i'w rôl, weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy'n seiliedig ar sicrhau bod y plant yn datblygu mewn awyrgylch gofalgar a chynhaliol. Mae perthynas waith effeithiol rhwng yr ymarferwyr yn sicrhau profiadau gwerth chweil i'r plant. Mae'r arweinydd yn trafod cynnydd y lleoliad a meysydd i'w gwella gyda'r person cofrestredig yn rheolaidd, sy'n sicrhau bod y person cofrestredig yn chwarae rhan weithredol yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda. O fewn amser byr, mae'r arweinydd wedi defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad i adnabod cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Mae'r arweinydd hefyd yn cydweithio'n dda â swyddog yr awdurdod lleol ar arfarnu gwaith y lleoliad i osod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi targedau gwelliant yn glir, er enghraifft wrth gryfhau'r adnoddau TGCh i hybu medrau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar bob achlysur yn ddigon mesuradwy er mwyn monitro camau gweithredu a datblygu'r lleoliad dros gyfnod priodol.

Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i benodi a chefnogi staff. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr y cymwysterau priodol i gyflawni eu swyddi, bod eu tystysgrifau yn gyfredol a'u bod yn mynychu hyfforddiant pwrpasol i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r person cofrestredig yn monitro gwaith y lleoliad yn bwrpasol ac yn ysgrifennu adroddiad i'r ymarferwyr sy'n cytuno ar meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r pwyllgor yn weithgar iawn ac yn cefnogi'r lleoliad yn gryf. Maent yn cynnal gwefan gymdeithasol ddefnyddiol sydd ar gael i ymarferwyr a rhieni plant y lleoliad yn unig. Mae hyn yn eu darparu â gwybodaeth am bolisïau newydd, llythyron a digwyddiau yn y lleoliad ac yn y gymuned.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n llwyddiannus ag ystod o bartneriaethau fel rhieni, yr athrawes ymgynghorol, Mudiad Meithrin a'r ysgol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad gadarnhaol at les y plant. Mae'r rhieni yn hapus iawn â'r lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael adborth am les a chynnydd eu plant ar lafar yn rheolaidd wrth iddynt ollwng a chasglu eu plant yn ddyddiol. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion neu bryderon unigol pob plentyn. Mae'r arweinydd yn cyfrannu at wefan gymdeithasol y lleoliad yn rheolaidd fel bod y rhieni yn ymwybdol o beth mae eu plentyn yn dysgu yn y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2019